



Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Conwy

Yn dod a'r Lluoedd Arfog a Chymunedau Conwy ynghyd 2016

www.conwy.gov.uk/communitycovenant



01 ▶ Cyflwyniad

Rhagair Cyng Liz Roberts, Cefnogwr Cymunedol y Lluoedd Arfog Sir Conwy



O safbwynt personol, rwyf wrth fy modd ac yn falch iawn o fy rôl fel Cefnogwr Cymunedol y Lluoedd Arfog Conwy.

Mae hon yn rôl rwyf yn ei thrysori, rwy'n gwneud yr hyn a allaf, er mwyn sicrhau nad yw Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghonwy o dan unrhyw anfantais ar ôl bod yn gwasanaethu ein gwlad. Y Cynllun Gweithredu hwn yw'r ail i'w gyhoeddi, ac fel y gwelwch chi, rydym yn cydweithio i adnabod anghenion penodol y Cyn-filwyr, y Dynion a'r Merched sy'n Filwyr, y Milwyr Wrth Gefn a'u dibynyddion. Ein nod yw sicrhau bod cymorth yn ei le ac yn hawdd dod o hyd iddo, wrth iddynt drosglwyddo i'w cymuned.

Caiff y cymorth yma ei gydlynu trwy Bwyllgor Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, grŵp o bartneriaid o'r un anian sy'n rhannu'r un weledigaeth, ac wedi ymrwymo i gyflawni a chyflwyno ein Cynllun Gweithredu uchelgeisiol.

Roedd 'Diwrnod y Lluoedd Arfog 2015' yng Ngogledd Cymru yn gyfle i'r gymuned ddangos ein cefnogaeth ac i gyfarch y Lluoedd am bob dim maent yn ei wneud, llawer ohonynt yn brysur yn gweithio o gwmpas y byd, gan hyrwyddo heddwch, darparu cymorth, mynd i'r afael â smyglwyr cyffuriau, darparu diogelwch ac ymladd terfysgaeth.



'Rydym mor falch o gael yr Arfbais ar Wregys Uwch Gaptan Gafr y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig sy'n dangos ein cefnogaeth barhaus a Pharch at y Lluoedd Arfog.' Gwregys Uwch Gaptan yr Afr a noddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.



Rwyf wedi cwrrd â chymaint o bobl ysbrydoledig, ac mae fy nyled yn fawr am y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan gymaint o bobl.

Maent wedi rhoi cymaint o'u hamser ac wedi bod yn allweddol wrth sicrhau y gallwn, drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, wneud ein rhan a rhoi rhywbeth yn ôl i Ddynion a Merched ein Lluoedd Arfog y gallwn ni yng ngogledd Cymru fod yn arbennig o falch ohono.

Diolch i chi.

Y Cynghorydd Elizabeth Roberts,
Cefnogwr Cymunedol y Lluoedd Arfog
Sir Conwy



"Gwobr y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gyfer yr unigolyn sydd wedi cyfrannu fwyaf at y Lluoedd Arfog (Rheolaidd neu Wrth Gefn) yng Nghymru" - Caerdydd, Ionawr 2016.

02 ▶ Amcanion y Cyfamod

Nod y cyfamod yw annog cefnogaeth ar gyfer ein Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr o fewn y gymuned a chynyddu integreiddio rhwng Cymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned leol yng Nghonwy ar gyfer rhagor o gydlyniant cymunedol. Gwneir hyn trwy weithio tuag at yr amcanion hyn -

- ▶ Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y gymuned leol o faterion sy'n effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog
- ▶ Sicrhau bod aberthau a wynebir gan Gymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu cydnabod a'u cofio
- ▶ Sefydlu gweithgareddau/cefnogi gweithgareddau i ymgysylltu'r Lluoedd Arfog a chymunedau lleol
- ▶ Annog Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu a chefnogi'r gymuned ehangach, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau, phrosiectau ar y cyd neu drwy ddulliau eraill o ymgysylltu

Fe gydnabyddir bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cwmpasu llawer o wahanol bobl sy'n byw gydag anghenion gwahanol gan gynnwys personél rheolaidd ac wrth gefn, cyn-filwyr, teuluoedd a dibynyddion. Nod y Cyfamod yw cynnwys pob un ohonynt yn y gymuned.

Nid oes unrhyw fynegiant mwy na chynnal y Cyfamod hwn. (Adroddiad Blyneddol Cyfamod y Lluoedd Arfog 2015)
Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys y gymdeithas gyfan: Mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol a sefydliadau preifat a gweithredoedd unigolion o ran cefnogi'r Lluoedd Arfog. Gan gydnabod y rhai sydd wedi perfformio dyletswyddau milwrol sy'n uno'r wlad ac yn arddangos gwerth eu cyfraniad.



03 ▶ Cyfamod cymuned y lluoedd arfog yng Nghynllun Conwy

3.1 Milwyr wrth gefn

Mae tua 30,000 o filwyr wrth gefn gwirfoddol yn y DU sy'n gwneud tua 14% o holl allu amddiffynnol y wlad.

- ▶ Cryfder Wrth Gefn
- ▶ Cwmni D, 3ydd Bataliwn y Cymry Brenhinol - mae gan Fae Colwyn chwe aelod staff parhaol
- ▶ 2 Staff Parhaol
- ▶ 5 Swyddog
- ▶ 87 Milwyr
- ▶ Didoliad C Ysbyty Maes 203 (W) – Llandudno
- ▶ Swyddogion wrth gefn x 10
- ▶ Milwyr wrth gefn x 17



3.2 Llu Cadlanciau'r Fyddin

Sefydliad ieuentid â lifrai yw Llu Cadlanciau'r Fyddin, a chaiff ei noddi gan y Fyddin, ond nid yw'n rhan ohono, ac ni chaiff y cadlanciau eu galw i fyny i'r fyddin. Mae Cadetiaid yn amrywio o 13 i 18 oed ac mae yna 5 grŵp yng Nghonwy sy'n cynnwys 95 o gadetiaid a 16 o oedolion sy'n gwirfoddoli i gefnogi'r grwpiau hyn.

Cadetiaid y Môr

- ▶ Mae'r Corfflu Cadetiaid Môr (SCC) yn sefydliad ieuentid cenedlaethol a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Llynges Frenhinol.
- ▶ 1 uned yn y sir. TS Aberconwy - Cadetiaid Môr Sir Conwy.
- ▶ 10-18 oed, 32 o gadetiaid, 14 o oedolion.

Corfflu Hyfforddiant Awyr

- ▶ Mae'r Corfflu Hyfforddiant Awyr (SCC) yn sefydliad ieuentid a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Awyrlu Brenhinol.
- ▶ 2 uned yn y wlad, 59 o gadetiaid, ac 16 o oedolion. Ystod oedran 12 i 17 oed.

3.3 Cyn-filwyr

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae tua 250,000 o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru - mae hyn yn cynnwys Personél sydd wrthi'n gwasanaethu, Cyn-filwyr, eu teuluoedd a'u dibynyddion. Mae'r Llyng Brydeinig Frenhinol yn amcangyfrif y gallai'r ffigur fod yn nes at 400,000.

Fe nodwyd bod o leiaf 13 o Personél y Lluoedd Arfog wedi gadael y Lluoedd Arfog ac wedi symud i Gonwy yn 2014 (y ffigurau rhagamcanol Ebrill 2014 hyd at fis Awst 2014).



04 ▶ Cyfamod cymuned y lluoedd arfog yng Nghynllun Conwy

4.1 Y Cynllun Gweithredu Cyfamod

Ei nod yw adeiladu ar y ddarpariaeth a'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yng Nghonwy a sicrhau bod Conwy yn Sir sy'n gallu cefnogi ei Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn ei chymunedau lleol. Cynhaliwyd gweithdy a chafwyd syniadau ar gyfer y cynllun gweithredu er mwyn symud ymlaen â'r Cyfamod. Mae'r cynllun Cyfamod wedi'i alinio i'r Cynllun Integredig Sengl - Un Conwy ac mae'n cefnogi llawer o'r canlyniadau, gan gynnwys..

- ▶ Mae Pobl yng Nghonwy wedi'i haddysgu ac yn fedrus – Mae gan bobl y sgiliau i gael a chadw swydd ac maent yn cael cyfle i wella eu sgiliau, cymwysterau, profiad a chyflogadwyedd.
- ▶ Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas - Darparu a galluogi tai hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd da i'n cymunedau ac atal digartrefedd.
- ▶ Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol - Annog ffyrdd iach o fyw, a sicrhau bod pobl sydd ag anabledau a chyflyrau cronig yn cael yr ansawdd bywyd gorau posibl, gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl da.
- ▶ Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus - Creu swyddi ledled y sir drwy ddatblygu a buddsoddi, sicrhau bod busnesau a thwristiaeth yng Nghonwy wledig yn ffynnu a threchu tlodi.
- ▶ Mae pobl yng Nghonwy'n wybodus, yn cael eu cynnwys a gwrandewir arnynt - Mae pobl yn cael eu parchu a'u trin fel aelod gwerthfawr o'r gymuned a gall pob aelod o'r gymuned ddylanwadu ar y gwasanaethau cyhoeddus.



05 Cyfamod cymuned y lluoedd arfog yng Nghynllun Conwy

5.1 Addysg Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae partneriaethau eisoes yn bodoli yng Nghonwy rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'r Lluoedd Arfog. Mae gan bob swyddfa Gefnogwr y Lluoedd Arfog sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol a mynediad at adnoddau a gynlluniwyd i helpu a chefnogi Cyn-filwyr. Maent hefyd wedi adnabod cyflogwyr a chyfluoedd cyflogaeth ar gyfer Cyn-filwyr gan gynnwys datblygiadau newydd yn y Sir a hyrwyddo mynediad at y cyfleoedd hyn. Mae Remploy hefyd yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i roi cymorth i'r rhai sydd ei angen i baratoi ar gyfer cyflogaeth (ysgrifennu CV, sgiliau cyfweiliad ac ati).



5.2 Tai

Mae nifer o'r partneriaid Cyfamod wedi chwarae rôl weithgar yn yr ymgynghoriad yn ymwneud ag Un Llwybr Mynediad at Dai. O ganlyniad i hyn mae Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr bellach yn grŵp blaenoriaeth ar gyfer tai. Mae hwn yn gam mawr ymlaen ar gyfer Conwy ac yn hanfodol, o ystyried nifer y Cyn-filwyr a fydd yn dod i Gonwy dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd diswyddiadau yn y Lluoedd Arfog. Yng Nghonwy ar hyn o bryd, bydd unigolion sy'n gadael y lluoedd arfog yn cael blaenoriaeth (Band 1) ym mholisi dyrannu cyffredin. Mae CBSC mewn partneriaeth â

Cartrefi Conwy yn datblygu asiantaeth gosod tai cymdeithasol i wella mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da. Mae cyngor ac opsiynau er mwyn atal digartrefedd ar gael gan Wasanaeth Datrysiaidau Tai Conwy a Shelter Cymru. Yn y gweithdy Cyfamod, fe nodwyd bod digartrefedd yn broblem ymhlith Cyn-filwyr yn enwedig mewn perthynas â rheoli arian a pherthnasau sy'n chwalu. Yr unig adeg y bydd darpariaeth arbennig Awdurdod Lleol ar gael fydd petai'r unigolyn yn ddigartref o fewn chwe mis ar ôl gadael y Lluoedd. Fe nodwyd bod hyn yn gyfnod rhy fyr, a bod y mwyafrif yn ddigartref rhwng 9 a 18 mis wedyn.



06 Cyfamod cymuned y lluoedd arfog yng Nghynllun Conwy

6.1 Iechyd a Lles

Mae gan Conwy amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon priodol i bobl o bob oedran a gallu, gyda llefydd ar gael i bobl anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth cynhwysol o safon uchel sy'n cynnwys defnyddio chwaraeon fel cyfrwng i wella lles ac iechyd unigolion. Gellir defnyddio chwaraeon a gweithgaredd corfforol fel elfen sylfaenol o'r broses ail sefydlu ar gyfer pobl sydd wedi dioddef anafiadau, ac mae Conwy yn ceisio darparu llefydd priodol ar gyfer Cyn-filwyr. Rydym hefyd yn awyddus i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i lywio ein gwaith cynllunio yn y dyfodol a chysylltu â digwyddiadau allweddol megis Diwrnod y Lluoedd Arfog,

i godi proffil anabledd a chwaraeon cynhwysol. O ganlyniad i'r Cyfamod ym mis Gorffennaf 2013, roedd nofio am ddim ar gael i Aelodau'r Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr ar draws Conwy. Hyd at Rhagfyr 2015, roedd 234 o bobl wedi cofrestru ar ei gyfer yn lleol, 309 o fewn y D.U. Mae Conwy hefyd yn cael cefnogaeth weithgar gan Chwaraeon Anabledd Cymru ac mae yna lawer o gyfleoedd ar gyfer pobl anabl yng Nghonwy. Mae cefnogaeth ar gael hefyd i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ac Anhwylder Straen Ôl-Drawmatig, gan gynnwys GIG Cymru i Gyn-filwyr.

- ▶ www.veteranswales.co.uk
- ▶ www.disabilitysportwales.com

6.2 Mynediad i Wybodaeth

O ganlyniad i'r Cyfamod, fe sefydlwyd gwefan ar draws pob partner fel siop un stop er mwyn i'r holl Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yng Nghonwy gael gwybodaeth. Caiff ei gynnal ar wefan Cyngor Sir Conwy, ac mae'n cynnwys many lion am ddarpariaeth leol, Cymru gyfan a chenedlaethol, a chafodd ei lansio ym mis Ebrill 2014.

Mae pwynt cyswllt canolog ar gyfery Cyfamod.

- ▶ CCC@cvsc.org.uk
- ▶ www.conwy.gov.uk/communitycovenant



07 ▶ Cyllid y Cyfamod

7.1 Cyllid y Cyfamod

Mae Cynllun Grant y Cyfamod Cymunedol bellach yn cael ei weinyddu drwy dîm grant y Weinyddiaeth Amddiffyn annibynnol newydd gydag arbenigedd gan y Loteri Fawr.

Mae'r cynllun grant yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n darparu canlyniadau sylweddol ac yn diwallu amcanion cyffredinol Cynllun y Cyfamod Cymunedol.

Y 3 blaenoriaeth ar gyfer 2015-2016 yw: integreiddio yn y gymuned: cydlynu a chyflwyno cefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog; a Chyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

7.2 Cofio ein Harwyr

Dros gyfnod o 11 mis, bu Cyn-filwyr ar draws gogledd Cymru yn helpu i dacluso dros fil o feddi rhyfel gyda phrosiect Cofio ein Harwyr. Gyda chymorth Grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, bu'r tîm **Change Step** yn cysylltu â Chomisiwn Beddi Rhyfel y Gymanwlad, Cynghorau Lleol ac Esgobaeth Bangor a Llanelwy i leoli 2,000 o feddau rhyfel yng Ngogledd Cymru.

Bu'r tîm yn gwirfoddoli am 6 niwrnod bob mis, gan ymweld â 42 o fynwentydd a gofalu am 1,033 o feddi rhyfel rhwng mis Mai 2014 ac Ebrill 2015. Er bod y cyllid ar gyfer prosiect Cofio ein Harwyr wedi dod i ben, mae'r tîm Change Step yn gobeithio parhau i wirfoddoli yn y gymuned leol;

Mae **Change Step** yn wasanaeth mentora a chyingor sy'n cael ei gyflwyno gan Gyn-filwyr i Gyn-filwyr sy'n dymuno gwneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau. Nod y gwasanaeth yw cefnogi rhai sy'n ceisio cymorth ar gyfer problemau a gafwyd o ganlyniad i ddyletswydd filwrol neu weithredol trwy gefnogaeth cyfoedion, cyfleoedd hyfforddiant a chyfeirio at wasanaethau iechyd a lles perthnasol. Gall enghreifftiau o broblemau a wynebir gan Gyn-filwyr gynnwys digartrefedd, diweithdra, problemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau. I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Cofio ein Harwyr ewch i www.northwaleswargraves.co.uk. I gael gwybod mwy am Change Step, ewch i www.changestepwales.co.uk



<https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-defence>

08 ▶ Prosiect Blaenoriaeth wrth symud ymlaen

8.1 Prosiect Cyn-filwyr/Teuluoedd

Nod y Prosiect Cyn-filwyr yw mynd ati ar y cyd i lunio Rhaglen Rhyng-gysylltu a fydd yn ysgogi ymdeimlad o berthyn i gymuned, a chyfrannu. Bydd y Rhaglen Rhyng-gysylltu yn cael ei datblygu gan aelodau o'r gymuned ar gyfer y gymuned; rydym yn cynnwys y cyn-filwyr cymunedol a'u teuluoedd, yn ei hanfod bydd pob un ohonom yn gweithio ochr yn ochr â'n gilydd mewn dull cyfannol a chyd-gynhyrchiol. Rydym wedi creu Grŵp Gweithredol ac Uwch Grŵp Strategol i symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Mae canlyniadau arfaethedig y gwaith hwn yn cynnwys:

- Creu partneriaethau yn y gymuned.
- Cynnwys a darparu cyfleoedd i grwpiau gwrrd.
- Dysgu oddi wrth ein gilydd er mwyn datblygu Rhaglen rhyng-gysylltu.
- Llunio Rhaglen Rhyng-gysylltu sy'n hwyluso annibyniaeth, lles iechyd/cymdeithasol/economaidd sy'n ystyrlon i gyn-filwyr/teuluoedd.
- Darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a chyflwyno'r Rhaglen Ryng-gysylltu yn y dyfodol.
- Adnabod yr hyn sy'n gweithio, yr hyn y gellir ei wella, a rhannu dysgu gydag eraill.

Rydym yn croesawu partneriaethau, a chydweithio, ac mewn ymdrech i rannu dysgu, rydym yn rhagweld cael cyfarfodydd/diweddariadau rheolaidd gyda phawb sy'n dymuno cymryd rhan.

8.2 Cyn-filwyr

Mae Cyn-filwyr sy'n dychwelyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael mynediad i lety priodol drwy SARTH (Lwybr Mynediad Sengl I Dai).

Band 1 (ar ôl eu rhyddhau o'r Lluoedd a gyda chysylltiad lleol).

Band 3 (ar ôl eu rhyddhau o'r Lluoedd a heb unrhyw gysylltiad lleol).

Cam Gweithredu:

- Monitro gweithrediad SARTH a pha mor hawdd y mae cyn-filwyr yn rhoi gwybod am gael mynediad at dai ar ôl gadael y Lluoedd (gyda chysylltiad lleol neu heb gysylltiad).
- Monitro trwy is-bwyllgor tai y Pwyllgor Cyfamod gan gynnwys y Tîm Strategaeth Tai.
- Mae mwy o bobl nag erioed yn chwilio am lety ym Mand 1 a 3, cymharu cyflymder mynediad gyda phoblogaeth gyfan yn yr un bandiau.
- Adrodd i'r Grŵp Cyfamod bob chwe mis.



09 ▶ Diwrnod y Lluoedd Arfog 2015

Ar 20 Mehefin 2015, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ym Mharc Eirias Bae Colwyn. Roedd dros 5000+ yn bresennol. I gydnabod ac anrhydeddu ein Milwyr presennol, a Chyn-filwyr. Codwyd £3,000 ar y diwrnod i'w rannu'n gyfartal rhwng Canghennau Gogledd Cymru o'r Lleng Brydeinig Frenhinol a SSAFA.





Atodiad 01

Rhaglen Waith i'r Dyfodol

Gweithred / Prosiect

- LLunio Cynllun Gweithredu.
- Tîm Cyfamod yn cyfarfod 4 Gwaith y flwyddyn.
- 2 Weithdy ymwybyddiaeth Cyn-filwyr.
- 1 Fforwm Conwy (gan ddod â phawb at ei gilydd i rannu gwaith yn y tîm Cyfamod).
- Cymorth Fforwm Gogledd Cymru a Grŵp Swyddogion Arweiniol Gogledd Cymru.
- Llunio Adroddiad Blynyddol.
- "Eithafol Eirias" i gynnal digwyddiad blynyddol fel rhan o'r prosiect. Etifeddiaeth AFD 2015.
- Cynnal y wybodaeth ddiweddaraf ar y wefan.
- Llunio deunydd marchnata.
- Sicrhau cyllid i brynu'r Alter G ddiweddaraf.
- Sefydlu Grŵp Sicrhau Ansawdd petai'r cais am arian prosiect i deuluoedd cyn-filwyr yn llwyddiannus.
- Ymweld ag ardaloedd o arfer gorau.
- Gweithdai Cyfamod Corfforaethol.
- Datblygu Grŵp Ffocws Cyn-filwyr.
- Presenoldeb a chynrychiolaeth mewn Digwyddiadau Cefnogi'r Lluoedd Arfog.
- Digwyddiadau codi arian elusennol drwy gydol y flwyddyn.
- Cefnogi'r Cyngorau Trefa Chymuned a'r Grwpiau Cymunedol sy'n dymuno cydnabod Aelodau. Gwasanaeth yn eu cymunedau.

